NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Lanadelumab ar gyfer atal pyliau mynych o angioedema etifeddol

16 Hydref 2019

Mae lanadelumab (Takhzyro) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer atal pyliau mynych o angioedema etifeddol mewn pobl 12 oed a throsodd os:

- ydynt yn cael 2 bwl neu fwy sy'n arwyddocaol yn glinigol bob wythnos dros 8 wythnos, er eu bod yn cael therapi ataliol geneuol neu na allant gael therapi geneuol
- defnyddir amlder dosio isaf lanadelumab pan fo'r cyflwr yn ei gyfnod sefydlog pan na cheir unrhyw byliau.

Os nad ydych yn gymwys i gael lanadelumab, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

Gall y sefydliad hwn roi cyngor a chymorth i chi:

- HAE UK, 07975 611787

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3565-9



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.